



CREATIVITY IN THE UK

COFNODION CYFARFOD BWRDD FESTIVAL 2022 LTD

(y "Cwmni" a "Festival 2022 Ltd")

**DRWY GYNHADLEDD FIDEO AC YN YR ADRAN DROS DECHNOLEG
DDIGIDOL, DIWYLLIANT, Y CYFRYNGAU A CHWARAEON, 100 PARLIAMENT STREET,
LLUNDAIN SW1A 2BQ – YSTAFELL Y CANGHELLOR**

DYDD MAWRTH 22 TACHWEDD 2022, 09:30 – 13:00

ar gyfer UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU (y "Rhaglen" ac "UNBOXED")

Yn Bresennol:

Y Fonesig Vikki Heywood DBE (VH)
Amali de Alwis (AdA)
Faraz Tasnim (FT)
Rob Smith MBE (RS)
Dr. Maggie Aderin-Pocock MBE (MAP)
Yr Athro Andrew Thompson CBE (AT)
Priya Lakhani OBE (PL)
Liam Hannaway (LH)
Roger Lewis (RL)
Dr. Bridget McConnell CBE (BMcC)

Cadeirydd y Bwrdd, Cyfarwyddwr Anweithredol
Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Lloegr
Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Gogledd Iwerddon
Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Cymru
Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli'r Alban

Arsylwyr y Bwrdd yn Bresennol:

Nicola Hewer (NH)

Richard Walsh (RW)
Gerwyn Evans (GE)
Marie Christie (MC)

Yr Adran Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a
Chwaraeon ("DCMS") Llywodraeth y DU
Llywodraeth yr Alban
Llywodraeth Cymru
EventScotland

Aelodau'r Bwrdd yn Bresennol

Phil Batty (PB)
Ian Reid (IR)
David Grady (DG)
Caroline McGrory (CMcG)
Lucy Bailey (LB)
Laura O'Flynn (LO'F)
Rachel Jurance (RJ)

Prif Swyddog Gweithredu
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifeg
Prif Swyddog Ariannol
Prif Swyddog Cyfreithiol
Cyfarwyddwr Prosiect
Pennaeth Llywodraethu a Diddymu (Cofnodwr)
Cynorthwy-ydd Prosiect

Gwahoddedigion:

Ben McKnight (BMcK)
Sam Skillings (S)
Will Mauchline (WM)
Yasmin Damji (YD)
Marie-Therese Chitnis (MTC)

Cyfarwyddwr Cyfathrebu
Cyfarwyddwr Cynulleidfaoedd a Marchnata (eitem 2b)
Pennaeth Prosiectau Strategaeth a Gwaddol
Pennaeth Gwerthuso (eitem 3)
Rheolwr Effaith a Gwaddol (eitem 3)

86/22 Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb

Ar ran y Bwrdd, diolchodd y Cadeirydd i bawb am y Digwyddiad i Randeiliaid ar 21 Tachwedd 2022.

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol, gan gynnwys Marie Christie o EventScotland. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dr. Hayaatun Sillem a Louise Hyland.

Ni chododd y Bwrdd unrhyw ddatganiad o fuddiannau.

87/22 Cymeradwyo Cofnodion a Materion yn Codi

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi 2022 yn gofnod cywir a byddai'n cael ei lofnodi'n briodol gan y Cadeirydd yn electronig gyda chopi wedi'i olygu yn cael ei gyhoeddi ar y wefan.

Nododd y Cadeirydd yn ffurfiol, oherwydd bod newid yn y llwyth gwaith yn effeithio ar ymrwymadau amser, y byddai PL yn gadael y Bwrdd yn y cyfarfod hwn cyn y cyfnod datodi a diddymu terfynol. Diolchodd y Bwrdd i PL am bopeth yr oedd wedi'i wneud i gefnogi'r Rhaglen UNBOXED.

Nododd y Cadeirydd fod hwn yn gyfarfod ffurfiol gydag agenda safonedig ac amser sylweddol wedi'i neilltuo ar gyfer y diweddariadau Gwerthuso a Gwaddol. Hysbysodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw faterion yn codi.

88/22 Diweddariad Gweithredol (gan gynnwys Diweddariad ar Ddiddymu)

Gwahoddodd y Cadeirydd PB (derbyniwyd y papur yn ddi-gwestiwn) i roi diweddariad.

Cyfeiriodd PB at yr adran ddiddymu wrth i weithgaredd y Rhaglen fyw ddod i ben ac wrth i'r cyfnod diddymu ddod yn fwy amlwg. Mae gweithgaredd diddymu yn elwa ar brosesau ehangach y Pwyllgor Trefnu (OC). Cyfeiriodd PB at yr atodiadau o fewn y papur, mewn cysylltiad ag amseriadau diddymu a'r Strategaeth Diddymu Rheoli Contract Masnachol, er gwybodaeth.

Nodwyd bod y don gyntaf o ymadawiadau'r gweithlu yn dechrau ar ddiwedd Tachwedd gyda 50% o'r gweithlu yn gadael ym mis Rhagfyr. O fis Ionawr, canolbwyntir ar ddod â'r 10 contract comisiwn i ben, gwerthuso, a diddymu o ran y Comisiynau, mae cyfarfod cau busnes i lawr terfynol wedi'i drefnu ar gyfer mis Ionawr i adael y Cytundeb Comisiynu yn ffurfiol a chwblhau cymod terfynol.

O 20 Ionawr, bydd 35% arall o'r gweithlu'n gadael a'r gweithwyr olaf yn gadael drwy gydol mis Chwefror, gyda gweithlu main ar waith i oruchwylio'r broses o ddiddymu. Amlinellodd PB fod UNBOXED yn gweithio gyda darparwr all-leoli i gefnogi cydweithwyr sy'n gadael y busnes.

Ar 14 Tachwedd, ymunodd hwylusydd allanol ag UNBOXED i gynnal sesiwn i chydgrynhai dysgu, heriau a nodi meysydd o fwynhad lle bydd dysgu allweddol yn bwydo i mewn i'r gwerthusiad.

Trafodd y Bwrdd pa un a oedd gan y Tîm Gweithredol unrhyw gipolwg ychwanegol ar faterion cadw yn ystod y cyfnod olaf hwn. Dywedodd PB bod heriau'n parhau o ran cadw'r gweithlu a gwyliau cronus yn effeithio ar ddyddiadau gorffen, ond mae hyn yn cael ei reoli.

Holodd y Cadeirydd a fyddai cydwasanaethau, fel TGCh yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod diddymu cyfan. Cadarnhaodd IR y byddai'r ddarpariaeth yn parhau.

Rhoddodd PB ddiweddariad ar y Comisiynau a'r datblygiadau gwaddol. Crynhodd PB yr ymgysylltu â'r gynulleidfa ar draws prosiectau UNBOXED.

Tynnodd PL sylw at gyfleoedd ychwanegol i ymestyn cyrhaeddiad adnoddau dysgu. Derbyniodd PB gynnig PL o gefnogaeth a chytunodd i gymryd camau dilynol.

Atgoffodd BMcC bawb am y system wahanol yn yr Alban. Amlinellodd PB fod tystiolaeth o ddefnydd o'r adnoddau ar draws y pedair gwlad.

Rhoddodd PB ddiweddariad ar weithgaredd rhyngwladol. Trafodwyd heriau adnoddau gyda'r nifer cynyddol o gyfleoedd yn y maes hwn a lleihau'r gweithlu. Yna trafodwyd pwysigrwydd defnyddio UNBOXED i arddangos arloesedd y DU wrth gyflwyno'r rhaglen hon.

Gofynnodd y Bwrdd am nodyn briffio 1 dudalen o bwyntiau allweddol i'w defnyddio ar gyfer eiriolaeth.

Tynnodd cynrychiolwyr y cenhedloedd sylw at y gefnogaeth barhaus ar waith ar gyfer y rhaglen ar draws y pedair Llywodraeth.

Dywedodd PB fod 9 o'r 10 comisiwn wedi'u sgorio'n wyrdd ar gyfer risgiau. Tynnodd FT sylw at y defnydd effeithiol o reoli risg drwy gydol oes y rhaglen.

Cyfeiriodd PB at yr adroddiad Canlyniadau Amgylcheddol drafft a oedd wedi'i ddosbarthu i'r Bwrdd gan ofyn i unrhyw adborth gael ei anfon yn uniongyrchol at John Darnbrook o fewn yr wythnos. Roedd AdA wedi'i adolygu ac atgoffodd bod yr adroddiad hwn yn cysylltu â'r prif werthusiad a bod angen sicrhau bod y ddau adroddiad wedi'u halinio.

CAM GWEITHREDU: BMcK i ddrafftio nodyn briffio 1 dudalen o negeseuon allweddol

89/22 Diweddariad Strategol: Cyfathrebu a Marchnata

Gwahoddodd y Cadeirydd PB i fframio trafodaethau. Amlygodd PB fod tîm MarComms yn adrodd yr hanes yn y ffordd fwyaf ymarferol yn erbyn tirwedd o gyfryngau heriol. Roedd y Bwrdd yn gefnogol i ddull rhagweithiol o wrthbwysu unrhyw ohebu negyddol.

Nododd y Bwrdd fod dyfnder naratif yn gymhleth ac yn anodd oherwydd ehangder y 10 comisiwn.

Dywedodd BMcK fod llond gwlad o gyfryngau digidol wedi'u trefnu dros yr wythnosau nesaf i helpu addysgu a hysbysu.

Teimlai AdA y byddai'n bwysig cyfleu manylion ar ben y ffigurau ymgysylltu i gyfleu dyfnder y naratif. Cytunodd PB a chadarnhaodd fod hyn yn rhan o'r cynlluniau.

Teimlai LH fod llai o sylwadau negyddol gan y wasg yng Ngogledd Iwerddon ac awgrymodd ddefnyddio stori waddol Our Place In Space ym mis Chwefror 2023 i adeiladu ar ohebiaeth.



CREATIVITY IN THE UK

Croesawodd y Bwrdd y Digwyddiad Rhanddeiliaid a gynhaliwyd yn yr RSA ar 21 Tachwedd ac roedd yn teimlo bod hyn wedi bod o fudd cadarnhaol. Holodd FT a oedd digon o adnoddau yn cael eu dyrannu i weithgaredd parhaus yn y maes hwn. Roedd PL yn argymhell bod lleoliadau penodol yn cael eu targedu gyda chymeradwyaeth annibynnol. Roedd AdA yn gefnogol i'r dull hwn a gofynnodd tybed a fyddai gweithgaredd lleol yn ffordd fwy cadarnhaol o amlygu'r ffeithiau.

Cafodd cynlluniau cyfathrebu ar gyfer cyhoeddi Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol eu hadolygu.

Crynhodd y Cadeirydd fod stori gadarnhaol i'w hadrodd a llawer o lwyddiannau yn deillio o'r Rhaglen, a gynlluniwyd ac a gyflwynwyd o fewn amserlen fer, llawer ohoni dan ryw fath o gyfyngiadau COVID ac adferiad COVID.

Cefnogodd y Bwrdd y cyfleoedd realistig a nodwyd.

90/22 Diweddariad ar Waddol

Ymunodd YD a MTC â'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd WM a MTC (derbyniwyd y papur yn ddi-gwestiwn) i roi diweddariad. Fframiodd MTC yr eitem a nododd y cywiriad a dderbyniwyd gan BMCC o fewn yr adroddiad, adran 1 'Diffinio Gwaddol' pwynt 7.

Crynhodd MTC y sefyllfa o ran gwaddol a chyfeiriodd at y papur sy'n categoreiddio gwaddol o'i gymharu â'r 7 budd a wireddwyd. Nodwyd bod y comisiynau yn gweithio tuag at eu gweithgareddau gwaddol unigol ac yn gweithio ar y cyd.

Teimlai'r Cadeirydd fod y cyflwyniad yn ddefnyddiol i gefnogi'r cyfathrebu wrth adrodd hanes UNBOXED. Bydd saith budd UNBOXED, a nodwyd ar ddechrau'r Rhaglen, yn darparu strwythur da sydd angen ei alinio â fframwaith yr adroddiad.

Agorodd y Cadeirydd y drafodaeth i'r Bwrdd roi adborth strategol i'r Weithrediaeth ar y Papur. Cefnogodd y Bwrdd gyfeiriad cyffredinol y Papur.

Croesawodd y Weithrediaeth yr adborth a gafwyd gan Gyfarwyddwyr y Bwrdd a chytunodd i ddiweddarau'r Papur gyda datblygiadau pellach ym mis Ionawr 2023.

91/22 Diweddariad Gwerthuso a Data Ymgysylltu

Gwahoddodd y Cadeirydd PB ac YD (derbyniwyd y papur yn ddi-gwestiwn) i roi diweddariad.

O'r papur, cyfeiriodd PB at y 4 mater allweddol; llinell amser, pennu gwerth ariannol ymgysylltu digidol, cyhoeddi gwerthusiad prosesau ac adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sydd ar ddod.

Gofynnodd ATP i'r ffaith y bydd UNBOXED yn darparu ansawdd uchel iawn o fesur a meincnodi o'i gymharu â sefydliadau eraill gael ei nodi. Teimlai AT y dylai camau gweithredu brys ganolbwyntio ar sut gall UNBOXED nodi ffordd gadarn o bennu gwerth ariannol cyfranogiad digidol.

Trafododd y Bwrdd yr her o bennu gwerth ariannol ymgysylltu digidol mewn model trosglwyddo buddion a chytunodd fod hwn yn parhau i fod yn fater allweddol i'r sector ehangach o ran arfarniadau economaidd o fentrau diwylliannol. Cytunodd Cyfarwyddwyr unigol i ddarparu cyflwyniadau perthnasol i'r Weithrediaeth ar draws y maes gwaith pwysig hwn.

Rhoddodd y Bwrdd gyfarwyddyd strategol i'r Weithrediaeth i weithio gyda phartneriaid y Llywodraeth a KPMG i arfarnu gwahanol atebion i'r mater o bennu gwerth ariannol ymgysylltu digidol mewn model trosglwyddo buddion.

Ailddechreuodd y cyfarfod a nododd y Bwrdd gynnwys gweddill y Papur Gwerthuso a ddarparwyd. Diolchodd y Cadeirydd i YD a MTC am eu diweddariadau manwl ac addysgiadol. Gadawodd YD ac MTC y cyfarfod.

92/22 Diweddariad Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Gwahoddodd y Cadeirydd IR i roi diweddariad yn dilyn cyfnod gwaith maes ymchwiliad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Crynhodd IR y sefyllfa fel y'i diweddarwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Cadarnhaodd NH fod yr adroddiad i fod i roi trosolwg ffeithiol o'r rhaglen.

Diolchodd y Bwrdd i bawb am y gwaith parhaus i gefnogi ac i gwblhau'r adroddiad gan weithio gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r DCMS.

Gadawodd IR y cyfarfod.

93/22 Diweddariad Cyllid

Gwahoddodd y Cadeirydd FT i roi diweddariad y Pwyllgor Gwaith Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC). Dywedodd FT mai hwn fyddai cyfarfod Bwrdd olaf DG a diolchodd FT iddo am ei holl gefnogaeth bersonol a'i gyngor proffesiynol ac edrychai ymlaen at wylio ei yrfa'n datblygu. Ar ran y Bwrdd, diolchwyd yn ffurfiol i DG am ei gyfraniad i UNBOXED.

Rhagarweiniodd FT y papur gan dynnu sylw at y cynllun oes archwilio mewnol a oedd wedi'i gwblhau gan ddweud bod ARAC wedi gofyn am adroddiad cryno. Roedd ARAC wedi adolygu fforddiadwyedd sefyllfa'r hyblygrwydd o fewn y Gyllideb Oes gan nodi'r ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer diddymu.

Gofynnodd ARAC i'r Bwrdd ystyried cyfleoedd i sicrhau'r buddion mwyaf posibl o'r rhaglen gan ddefnyddio'r sefyllfa hyblygrwydd gweddilliol.

Gadawodd FT y cyfarfod.

Fe wnaeth DG ddiweddarau'r Bwrdd ar y sefyllfa yn ymwneud â'r cyfrifon statudol a'r llinell amser ar gyfer eu cymeradwyo a'u cyhoeddi. Byddai'r tîm Cyllid yn croesawu adborth cyn y cymeradwyo ffurfiol ar 8 Rhagfyr. Drafft terfynol i'w lunio a'i gymeradwyo yn ARAC ar 6 Rhagfyr cyn cyfarfod y Bwrdd. Ni roddodd y Bwrdd unrhyw sylwadau.

Gwahoddodd y Cadeirydd drafodaeth a mewnbwn strategol ar gyfer y Weithrediaeth ar y ffordd orau o sicrhau'r buddion mwyaf posibl o'r rhaglen gan ddefnyddio'r sefyllfa hyblygrwydd gweddilliol ac i sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar gyfer buddion gwaddol.

Nododd y Bwrdd fod angen ymrwymo unrhyw ymrwymiadau ariannu cyn mis Mawrth 2023 oherwydd bod y rhaglen yn cael ei chyllido'n flynyddol.

I gloi dywedodd y Bwrdd bod gwneud y mwyaf o fuddion a gwaddol yn bwysig wrth ddangos eto gwerth am arian UNBOXED, a dylai hwn fod yn ffactor hollbwysig mewn unrhyw benderfyniadau.

I gloi dywedodd y Cadeirydd bod y Bwrdd yn awyddus i gefnogi lle bo'n bosibl saith budd y rhaglen drwy ddyrannu'r gyllideb yn ôl y bwriad, ac mae'r sefyllfa ariannol bresennol yn adlewyrchu rheoli arian wrth gefn a rheoli risg yn synhwyrol drwy gydol oes y rhaglen.

CAM GWEITHREDU: Cytunodd IR/PB i ddarparu Papur pellach i sefydlu'r camau nesaf a'r broses o wneud penderfyniadau i gwblhau a chau gwariant y rhaglen yn unol â chyfarwyddyd Bwrdd.

94/22 Unrhyw fusnes arall

Nododd y Bwrdd 'Dim Busnes Arall.'

Myfyrdodau a sylwadau i gloi

Diolchodd y Cadeirydd i'r Bwrdd, y rhai yn bresennol, y Weithrediaeth a'r tîm ehangach am eu cyfraniadau.

Gadawodd arsylwyr y Bwrdd a'r rhai a oedd yn bresennol o UNBOXED y cyfarfod.

Roedd 30 munud olaf y cyfarfod yn sesiwn gaeedig ar gyfer y Cyfarwyddwyr yn unig.

Diwedd y cyfarfod

Daeth y cyfarfod i ben am 13:00. Cadarnhawyd y bydd y cyfarfod nesaf yn un anffurfiol ar-lein ar 08 Rhagfyr 2022, 09:00 – 09:45 i lofnodi cyfrifon ariannol diwedd y flwyddyn.

Dosbarthu drwy e-bost oni nodir yn wahanol:

Cyfarwyddwyr y Bwrdd
Arsylwyr y Bwrdd
Tîm Rheoli Gweithredol

Dyddiad anfon at y Cadeirydd: 13 Rhagfyr 2022
Dyddiad dychwelyd at y Gweinyddwr: 16 Rhagfyr 2022
Dyddiad dosbarthu: 17 Ionawr 2023